# Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cyrff Cyhoeddus) (Diwygio) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cyrff Cyhoeddus) (Diwygio) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lesley Griffiths AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
21 Mai 2024

# RHAN 1

## Disgrifiad

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ystyr 'corff cyhoeddus' yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") drwy ychwanegu wyth corff cyhoeddus ychwanegol at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf. Y cyrff cyhoeddus hyn yw Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Trafnidiaeth Cymru (sef Transport for Wales) (rhif y cwmni 09476013), y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (sef Centre for Digital Public Services Limited) (rhif y cwmni 09341679), Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (y "cyrff cyhoeddus ychwanegol").
2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adran 9(2) o'r Ddeddf i bennu bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol osod a chyhoeddi amcanion llesiant cychwynnol erbyn 31 Mawrth 2025 fan bellaf.
3. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r cyfnod adrodd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru ("ACC") o dan adran 15 o'r Ddeddf, ar gyfer y cyrff cyhoeddus ychwanegol. Mae'r diwygiad hwn yn darparu bod rhaid i ACC gynnal ymchwiliad o bob corff cyhoeddus ychwanegol o leiaf unwaith dros gyfnod cychwynnol o chwe blynedd (2024-2030). Bydd pob cyfnod adrodd dilynol, ar ôl y cyfnod cychwynnol, yn dilyn y cyfnod adrodd a ddarperir o dan adran 15(6) o'r Ddeddf.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4. Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dymuno nodi:
5. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y bumed Senedd) ymchwiliad o'r enw *Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus* rhwng mis Mai 2020 a mis Mawrth 2021. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: y stori hyd yma ar 17 Mawrth 2021 a chynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad (Argymhelliad 7) i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Amlinellodd gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2020-21 fod gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ffordd amgen a gwell o weithio yn hytrach nag yn ffordd ychwanegol o weithio. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer gosod amcanion, monitro, adrodd, a gwneud penderfyniadau, yn ogystal â hyfforddiant a datblygiad ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
6. Mae cylch gwaith Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn cynnwys archwilio deddfwriaeth a chraffu ar wariant, gweinyddiaeth a pholisïau ar gyfer materion sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf. Yn ei *Adroddiad craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (Diweddariad Ebrill 2022)*, roedd y Pwyllgor yn falch fod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i adolygu nifer y cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

7. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd adroddiad o'r enw *Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23 (Mawrth 2024)*, a oedd yn cynnwys argymhelliad i'r Comisiynydd roi gwybod a fydd yn gallu parhau i roi sicrwydd ynghylch y cymorth a ddarperir gan y tîm cyrff cyhoeddus i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol sydd i'w hychwanegu at y Ddeddf, y defnyddiodd ei swyddfa ei chronfeydd wrth gefn i'w ariannu yn 2022-23.

8. Wrth graffu ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) fel yr oedd bryd hynny, sy'n gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar y cyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6(1) o'r Ddeddf, cynhwysodd Pwyllgor Cyllid y Senedd argymhelliad (Argymhelliad 10) yn ei Adroddiad Cyfnod 1 (Tachwedd 2022) yn gofyn i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar ganlyniad yr adolygiad o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu, yn rhannol, argymhellion Pwyllgorau'r Senedd.

## Y cefndir deddfwriaethol

9. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6(1) wneud pethau i fynd ar drywydd llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus hynny adrodd ar gamau o'r fath, a sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i gynghori a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i wneud pethau yn unol â'r Ddeddf.

10. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir ddarparu gwasanaeth cyhoeddus ar y cyd sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

*Cyrff Cyhoeddus – y meini prawf ar gyfer bod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf*

11. Nodwyd y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 2 o'r Ddeddf ar ôl ystyried set o bedwar maen prawf cyhoeddedig sy'n ymwneud â'r canlynol: cyllid cyhoeddus (mwy na 50%), effaith ar lesiant, swyddogaethau, ac a ydynt yn archwiliadwy.

12. Pan basiwyd y Ddeddf, sefydlwyd prawf statudol yn adran 52, fel mai dim ond cyrff sydd â swyddogaethau cyhoeddus y caniateir eu hychwanegu at y rhestr o gyrff cyhoeddus o dan adran 6(1). Roedd angen diweddaru'r pedwerydd prawf anstatudol, sy'n ymwneud ag a yw cyrff yn archwiliadwy gan ACC, i adlewyrchu diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n deillio o Ddeddf Cymru 2017. Diddymodd hyn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n golygu nad oes diffiniad statudol o gorff cyhoeddus archwiliadwy. Arweiniodd hyn at ddiwygio geiriad y prawf hwn i gynnwys cyrff lle mae gan ACC y pŵer i archwilio o dan ddeddfwriaeth bresennol. Darperir y meini prawf dethol yn Atodiad 2.

13. Mae pump o'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn gyrff gweithredol (Trafnidiaeth Cymru, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymwysterau Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru). O ystyried y statws hwn, mae dyletswydd llesiant Gweinidogion Cymru yn effeithio'n anuniongyrchol ar y cyrff cyhoeddus hyn ac, yn ymarferol, maent yn ceisio cyflawni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru ac yn gweithio ar draws y

sector cyhoeddus i alluogi gwell cydweithredu a chydlynu wrth ddarparu eu gwasanaethau.

14. Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar adolygu cyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn nodi maen prawf fod cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn y Ddeddf (Rhan 2) yn cael eu dewis ar y sail bod eu cylch gwaith neu eu swyddogaethau yn cael yr effaith fwyaf ar lesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru, a'r rhai sydd â swyddogaethau polisi strategol a chynllunio corfforaethol. Pan fo cyrff cyhoeddus yn gwmnïau cofrestredig cyfyngedig drwy warant, mae'r cyrff hyn yn cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, er enghraifft, sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 i roi cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phrosiectau trafnidiaeth yng Nghymru. Yn 2017, fe wnaeth Trafnidiaeth Cymru gaffael y Gweithredwr a'r Partner Datblygu newydd ar gyfer masnachfraint rheilffordd Cymru a'r Gororau o dan bwerau a ddirprwywyd i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae swyddogaethau Trafnidiaeth Cymru wedi'u nodi yn ei lythyr cylch gwaith sy'n disgrifio ei amcanion polisi i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

15. Sefydlwyd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (y Ganolfan) o dan adran 58A a 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fel corff cyhoeddus, mae'n gweithredu fel asiant cyflawni ar ran Gweinidogion Cymru a'i rôl yw cyflawni ei gyfrifoldebau o fewn cyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru. Mae'r Ganolfan yn nodi ei swyddogaethau o natur gyhoeddus yn ei Erthyglau Cymdeithasu ac mae ei diben a'i chylch gwaith wedi'u nodi yn Erthygl 3.1. Prif ddiben y Ganolfan yw helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (datganoledig) gwell i ddinasyddion Cymru.

16. O'u hychwanegu at adran 6(1) o'r Ddeddf, bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol hyn yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant (Rhan 2 o'r Ddeddf), ond ni fydd hynny'n berthnasol i'w his-gwmnïau. Fodd bynnag, bydd eu his-gwmnïau yn cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn eu llythyrau cylch gwaith .

17. Nid yw rhai cyrff cyhoeddus penodol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu hychwanegu at adran 6(1). Nid yw cyrff cynghori, tribiwnlysoedd a chyrff arolygu wedi'u cynnwys gan nad oes ganddynt swyddogaethau gweithredol ac na ystyrir eu bod yn pasio'r prawf o fod â swyddogaethau strategol sy'n berthnasol i'r Ddeddf. Mae sefydliadau addysg uwch a chorfforaethau addysg bellach wedi'u heithrio oherwydd eu bod yn sefydliadau nid-er-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd yn annibynnol ar reolaeth y llywodraeth ac nad ydynt yn archwiliadwy gan ACC. Nid yw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi'u cynnwys gan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf o ran 50% o gyllid cyhoeddus.

18. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, sef y corff rheoleiddio a fydd yn gyfrifol am ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, a bydd hwn yn cael ei ychwanegu at adran 6(1) o'r Ddeddf yn 2024.

19. Mae llawer o’r sefydliadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf wedi ymgorffori’r dull Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn eu gwaith a byddwn yn parhau i ystyried sut y gellir rhannu’r arferion hyn ar draws Cymru.

*Y ddyletswydd llesiant*

20. Mae'r ddyletswydd llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir yn adran 2 o'r Ddeddf fel y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler paragraff 23), gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.

*Y nodau llesiant*

21. Dyma’r nodau llesiant:
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy’n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

22. Darperir disgrifiadau llawn o bob un o'r nodau llesiant yn adran 4 o'r Ddeddf. Mae 50 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol a 17 o gerrig milltir cenedlaethol sy'n helpu i fesur perfformiad tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r dangosyddion a'r cerrig milltir yn rhoi eglurder ychwanegol ar y newidiadau ymarferol a ddisgwylir wrth gyflawni'r nodau llesiant.

*Yr egwyddor datblygu cynaliadwy*

23. Rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6(1) weithredu’n unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n golygu bod rhaid i’r corff weithredu mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod modd diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy. Er mwyn gweithredu’n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i bum ffordd o weithio, sef:

  - Hirdymor
  - Integreiddio
  - Atal
  - Cydweithio
  - Cynnwys

*Yr amcanion llesiant (adran 4)*

24. Rhaid i'r camau a gymerir gan gorff cyhoeddus wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy gynnwys gosod a chyhoeddi amcanion (‘amcanion llesiant’) sydd wedi’u cynllunio i alluogi’r cyrff i gyfrannu i’r eithaf at gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion y maent wedi’u gosod.

*Datganiadau ynghylch amcanion llesiant*

25. Wrth osod eu hamcanion llesiant, rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r amcanion hyn.

26. Wrth lunio’r datganiad, rhaid i gyrff cyhoeddus esbonio sut y mae eu hamcanion llesiant wedi’u gosod yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y byddant yn cynnwys personau eraill wrth gyflawni'r nodau llesiant, gan sicrhau bod y personau hynny yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth. Rhaid i'r datganiad hefyd roi manylion am yr hyn y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu ei wneud (ei gamau) i gyflawni ei amcanion llesiant. Rhaid i'r corff cyhoeddus nodi sut y bydd yn llywodraethu ei hun, sicrhau bod y camau'n cael eu hadolygu'n barhaus ac egluro sut y mae adnoddau'n cael eu dyrannu bob blwyddyn at ddibenion cymryd y camau a nodwyd ganddo. Yn ogystal, bydd y datganiad yn manylu ar yr amserlen y mae'r corff cyhoeddus wedi’i nodi ar gyfer cyflawni ei amcanion llesiant.

*Adroddiadau Blynyddol*

27. Mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd o ran cyflawni eu hamcanion llesiant, a hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

*Canllawiau Statudol*

28. Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 2. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i ganllawiau o'r fath. Cyhoeddwyd y canllawiau, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol ym mis Medi 2016 ac maent yn cynnwys 4 dogfen ganllaw sy'n ymdrin â'r canlynol: canllaw craidd, rôl unigol (cyrff cyhoeddus), rôl gydweithredol (byrddau gwasanaethau cyhoeddus), rôl gydweithredol (cynghorau cymuned) a dyddiadau allweddol. Diweddarwyd y canllawiau ar 1 Ebrill 2024 i adlewyrchu'r diwygiad i'r nod llesiant “Cymru Lewyrchus” a wnaed yn adran 20 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

*Rôl Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru*

29. Sefydlodd y Ddeddf swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (“y Comisiynydd”), sef unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â phwyllgor y Senedd sydd â chyfrifoldeb.

30. Rôl a dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd yw:

- Hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Gweithredu fel gwarcheidwad ar gyfer gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
- Annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o sylw i effaith hirdymor eu gweithgareddau.
- Monitro ac asesu'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant a bennir gan y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i’r Ddeddf.
- Wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, caiff y Comisiynydd:
- Ddarparu cyngor neu gymorth i’r canlynol:
- Corff cyhoeddus.
- Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (mewn perthynas â llunio’i gynllun llesiant lleol).
- Unrhyw berson arall y mae’n credu sy'n gweithredu, neu’n ceisio gweithredu, mewn ffordd a allai gyfrannu at nodau llesiant Cymru.

- Annog arferion gorau a hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus i helpu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion llesiant mewn modd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd, a chydag eraill os gallai hynny eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion llesiant, a rhannu'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg cyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Cynnal adolygiad i nodi i ba raddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

31. Rhaid i'r Comisiynydd wneud y canlynol:

- Llunio a chyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 12 mis cyn pob etholiad Senedd, sy'n cynnwys ei asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori ag ystod eang o sefydliadau a chynrychiolwyr wrth lunio'r adroddiad.

- Llunio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol a fydd yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd gan y Comisiynydd, dadansoddiad o effeithiolrwydd y camau hynny, crynodeb o'r cwynion a gafwyd, a blaenraglen waith. Caiff yr Adroddiad Blynyddol gynnwys asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

*Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru: ymchwiliadau ynghylch egwyddorion datblygu cynaliadwy*

32. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i ACC i gynnal ymchwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant ac wrth gymryd camau tuag at eu cyflawni. Rhaid i ACC gynnal o leiaf un ymchwiliad o bob un o'r cyrff cyhoeddus ym mhob 'cyfnod adrodd' (unwaith bob pum mlynedd ar hyn o bryd). Mae pob cyfnod adrodd yn dechrau un flwyddyn cyn dyddiad arfaethedig etholiad cyffredinol arferol nesaf y Senedd ac yn para tan flwyddyn a diwrnod cyn yr etholiad nesaf o'r fath.

33. Mae gan ACC ddisgresiwn i benderfynu ar amseriad ymchwiliadau o fewn y cyfnod hwnnw. Cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i ACC adrodd i'r Senedd ar ganlyniadau cyffredinol yr ymchwiliadau. Bydd ACC yn adrodd ar ganfyddiadau ymchwiliadau cyrff unigol i'r corff ei hun, a bydd yr allbynnau perthnasol hefyd yn cael eu cyhoeddi gan ACC pan fyddant wedi'u cwblhau. Gosodwyd adroddiad cyntaf ACC gerbron y Senedd ym mis Mai 2020. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad nesaf ym mis Mai 2025.

*Byrddau gwasanaethau cyhoeddus*

34. Nid yw estyn y ddyletswydd llesiant i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn newid aelodaeth statudol bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, ac nid yw ychwaith yn newid y rhestr o gyrff y mae'n rhaid i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus eu gwahodd i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r bwrdd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn annog y cyrff newydd hyn i gymryd rhan yng ngwaith y

byrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fo hynny’n berthnasol i gyflawni’r nodau llesiant.

*Y pwerau sy'n galluogi'r rheoliadau hyn*

35. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, caiff y Rheoliadau eu gwneud gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a deuant i rym ar 30 Mehefin 2024.

36. Mae adran 6(1) o'r Ddeddf yn rhestru personau penodol fel ‘corff cyhoeddus’ at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf. O dan adran 52 o'r Ddeddf, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio adran 6(1) drwy ychwanegu person, tynnu person ymaith, neu ddiwygio’r disgrifiad o berson. Y pŵer penodol y dibynnir arno yw adran 52(1)(a).

37. Darperir ar gyfer pwerau i wneud y darpariaethau gofynnol mewn perthynas ag adran 9 ac adran 15 o'r Ddeddf yn adran 54 o'r Ddeddf. Mae adran 54(1)(b) yn darparu pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu atodol y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol. O dan adran 54(3)(b) gellir gwneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â'r ddyletswydd adran 52(1) (i ychwanegu'r cyrff ychwanegol).

38. Mae adran 9(2)(a) o'r Ddeddf yn darparu fel a ganlyn: ‘Rhaid i amcanion llesiant corff cyhoeddus gael eu gosod a’u cyhoeddi heb fod yn hwyrach na dechrau'r flwyddyn ariannol sy’n dilyn cychwyn yr adran hon’. Cychwynnwyd adran 9 ar 1 Ebrill 2016 yn unol â Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2) 2016 (2016/86). Roedd yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a oedd wedi’u rhestru o dan adran 6(1) ar y pryd osod a chyhoeddi amcanion llesiant erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2017 fan bellaf. Mae'n ofynnol cael darpariaeth i osod dyletswydd ar y cyrff ychwanegol i osod amcanion llesiant cychwynnol heb fod yn hwyrach na diwedd y flwyddyn ariannol yn dilyn eu hychwanegu at adran 6(1) o'r Ddeddf (erbyn 31 Mawrth 2025).

39. Ni fyddai'r dyddiad dod i rym arfaethedig i ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1), sef 30 Mehefin 2024, a'r gofyniad i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol osod amcanion llesiant erbyn 31 Mawrth 2025, yn rhoi digon o amser i ACC gwblhau ymchwiliadau o’r cyrff cyhoeddus ychwanegol o fewn y cyfnod adrodd cyfredol (2020-25). Felly, mae angen darpariaeth i ddiwygio adran 15 o'r Ddeddf mewn perthynas â'r cyrff ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu y bydd gan ACC gyfnod adrodd chwe blynedd ar gyfer y cyrff cyhoeddus ychwanegol, o 30 Mehefin 2024 i un diwrnod ac un flwyddyn cyn etholiad nesaf y Senedd ar ôl Mai 2026 (Mai 2031 ar hyn o bryd). Bydd ACC yn llunio adroddiad ar ymchwilio i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol. Yna bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn dilyn y cyfnod adrodd o dan adran 15 o'r Ddeddf, yn unol â'r 48 corff cyhoeddus arall o dan adran 6(1) ar gyfer ymchwiliadau dilynol.

## Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

40. Effaith y Rheoliadau hyn yw ychwanegu wyth corff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o'r Ddeddf a fydd yn arwain at wneud y cyrff cyhoeddus ychwanegol hynny yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant. Bydd gofyn i'r

cyrff cyhoeddus ychwanegol ymgymryd â datblygu cynaliadwy a gosod a chyhoeddi eu hamcanion llesiant erbyn 31 Mawrth 2025 fan bellaf.

41. Drwy gael eu rhestru yn adran 6(1) o'r Ddeddf, bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol hefyd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau o ran partneriaeth gymdeithasol a chaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol, fel y'u nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (“Deddf 2023”). Bydd hyn yn gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ac yn ategu'r cam o ymgorffori gwaith teg o fewn amcanion llesiant, sef newid a gyflwynwyd o dan Ddeddf 2023.

42. Os na wneir y Rheoliadau hyn, ni fydd y manteision a amlinellir yn Atodiad 1 ar gyfer y sefydliad ac ar gyfer poblogaeth Cymru yn cael eu gwireddu. Ni fydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn gosod amcanion llesiant er mwyn cyfrannu i’r eithaf at y nodau llesiant nac yn gweithredu mewn ffordd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Bydd hyn hefyd yn arwain at safonau llywodraethu anghyson ar draws sector cyhoeddus Cymru a byddai'n cyfyngu ar gwmpas y darpariaethau o ran partneriaeth gymdeithasol a chaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol.

## Ymgynghori

43. Cyn gwneud rheoliadau sy'n diwygio adran 6(1) o'r Ddeddf, o dan adran 52(4), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd, unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol, a'r personau hynny (cyrff cyhoeddus) sydd i'w hychwanegu at y Ddeddf.

44. Rhwng 14 Gorffennaf a 20 Hydref 2022, gwahoddodd Llywodraeth Cymru farn ar y cynigion drwy ymgynghoriad cyhoeddus ar estyn y ddyletswydd llesiant yn Rhan 2 o'r Ddeddf i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol. Roedd yr ymateb yn dangos bod cefnogaeth gref i estyn y ddyletswydd llesiant i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 15 Rhagfyr 2022. Darparodd y Comisiynydd ac ACC ymatebion i'r ymgynghoriad.

45. Ers mis Hydref 2022, gan ddefnyddio adborth o'r ymgynghoriad ynghylch rhannu arferion gorau, mae sesiynau cyfnewid gwybodaeth rheolaidd wedi cael eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys swyddogion o'r cyrff cyhoeddus presennol a’r cyrff cyhoeddus ychwanegol nad ydynt eto yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant. Mae'r sesiynau wedi canolbwyntio ar elfennau allweddol y ddyletswydd llesiant i helpu i rannu arferion da ynglŷn â rhoi'r ddyletswydd ar waith yn ymarferol. Bydd sesiynau cyfnewid gwybodaeth pellach yn cael eu cynnal yn 2024-25.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## Yr opsiynau

1. Yr opsiynau sydd wedi'u hystyried wrth lunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) hwn yw opsiwn 1 – gwneud dim, ac opsiwn 2 – cyflwyno Rheoliadau i ychwanegu cyrff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o'r Ddeddf. Aseswyd y ddau opsiwn gan ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru pan oedd yr RIA hwn yn cael ei lunio.
2. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn newid polisi'r Ddeddf ond maent yn estyn ei heffaith yn rhinwedd ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o'r Ddeddf.
3. Yn dilyn yr asesiad o'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn erbyn y meini prawf yn Atodiad 2, cafodd opsiwn ar gyfer ychwanegu mwy na'r cyrff ychwanegol ei ddiystyru. Diystyrwyd opsiwn i geisio cyfraniad gwirfoddol i agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol gan y cyrff ychwanegol gan na fyddai'r cyfraniad y mae'r cyrff hynny yn ei wneud ar hyn o bryd yn cyflawni mwy nag opsiwn 'gwneud dim'.

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

4. Byddai'r opsiwn o wneud dim yn golygu na fyddai'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn cael eu hychwanegu at adran 6(1) o'r Ddeddf. O ganlyniad, ni fyddai'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol ymgymryd â datblygu cynaliadwy, gosod a chyhoeddi amcanion llesiant ac adrodd ar y cynnydd tuag at eu cyflawni, na gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Ar ben hynny, ni fyddent yn ddarostyngedig i ddyletswyddau a phwerau'r Comisiynydd nac yn destun ymchwiliadau gan ACC,
5. Drwy estyn y ddyletswydd llesiant i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol, bydd gofyn iddynt gyflawni amcanion llesiant a osodir ganddynt hwy eu hunain sy'n cyd-fynd yn agosach â'u rôl a'u swyddogaeth, yn ogystal â chyflawni'r amcanion llesiant cenedlaethol a bennir gan Weinidogion Cymru. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Awdurdodau Iechyd Arbennig sydd, ynghyd ag Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, wedi ymrwymo i ddull llesiant ehangach GIG Cymru.

**Opsiwn 2 – Ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o'r Ddeddf**

6. Bydd yr opsiwn o gyflwyno rheoliadau yn ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o'r Ddeddf. Wrth wneud hynny, bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant ac felly bydd rhaid iddynt ymgymryd â datblygu cynaliadwy, yn ogystal â chyhoeddi a chyflawni amcanion llesiant sy'n cyfrannu at y nodau llesiant, ac adrodd ar yr amcanion hynny. Bydd yn ofynnol hefyd iddynt weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
7. Bydd cyrff hefyd yn cael cymorth gan y Comisiynydd, a gallant fod yn destun adolygiad ganddo, a byddant yn destun ymchwiliadau gan ACC.

## Costau a manteision

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### Costau

8. Pe na bai'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn cael eu hychwanegu at adran 6(1) o'r Ddeddf, byddai'r trefniadau presennol yn debygol o barhau ac felly nid oes costau ychwanegol uniongyrchol cysylltiedig yn deillio o'r opsiwn hwn.
9. Bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn parhau â'u hymwneud presennol â'r Ddeddf naill ai drwy lythyrau cylch gwaith Llywodraeth Cymru, gan gyfrannu at amcanion llesiant Gweinidogion Cymru, neu drwy ymwneud gwirfoddol a bod yn gysylltiedig â gweithgareddau cynaliadwyedd sectorol.
10. Gall y cyrff cyhoeddus ychwanegol gael gafael ar adnoddau ar-lein a ddarperir gan y Comisiynydd ond ni fyddant yn cael cymorth gan y Comisiynydd er mwyn cyfrannu i’r eithaf at y nodau llesiant. Bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn dal i allu cael gafael ar y canllawiau a'r adnoddau presennol sydd ar gael gan swyddfa’r Comisiynydd, ond ni fydd y cyngor a’r cymorth yn cael eu teilwra i'w hanghenion penodol.
11. Ni fyddai'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn gallu cael mewnwelediad gwerthfawr o ymchwiliadau ACC.

### Manteision

12. Mantais cynnal y status quo yw y bydd gan y cyrff cyhoeddus ychwanegol brosesau cyfarwydd sydd wedi cymryd amser i'w rhoi ar waith. Bydd bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol ail-lunio rhai o'u gweithgareddau a'u harferion adrodd. Mae’n bosibl y bydd rhai o'r farn bod cadw'r trefniadau presennol hyn yn fuddiol, yn enwedig o gofio'r sefyllfa ariannol heriol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn y flwyddyn ariannol 2024-25. Mae cyfranogiad gwirfoddol gan y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol wedi helpu i gyflawni rhai newidiadau cadarnhaol, felly mae'n bosibl – ond heb fod yn sicr – y byddai hyn yn parhau heb iddynt gael eu rhestru yn adran 6(1) o'r Ddeddf.
13. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o'r Ddeddf yn cael ei ystyried yn gam amserol i'w groesawu o ran creu mwy o gysondeb ar draws y sector cyhoeddus. Mae graddau'r ymwneud gwirfoddol yn awgrymu symudiad tuag at gydweddu’n well â'r ddyletswydd llesiant.

### Opsiwn 2 – Ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o'r Ddeddf

### Costau

*Costau i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf*

14. Canfu RIA y Ddeddf yn 2015 y gellir amsugno costau ychwanegol y ddeddfwriaeth i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant, lle maent yn codi, o fewn cyllidebau a gweithgareddau presennol. Ni nodwyd unrhyw gostau ychwanegol newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus ychwanegol. Yn yr un modd, canfu gwaith a gynhaliwyd bryd hynny ar y newid diwylliant gan PricewaterhouseCoopers International Limited,‘the potential opportunities and benefits that could be derived from implementing the proposed duties

significantly outweigh the negative administrative impacts associated with implementation'. Roedd y canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod gan y Ddeddf y cyfle, o'i gweithredu'n effeithiol, i greu arbedion cost sylweddol drwy alluogi trefn adrodd a monitro fwy cydgysylltiedig, a bod yr effeithiau cadarnhaol tymor hwy yn cael eu hystyried yn drech o lawer na'r costau cychwynnol ymlaen llaw.

15. Nid yw'r Ddeddf yn pennu'r penderfyniadau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu gwneud mewn unrhyw sefyllfa benodol wrth gyflawni'r ddyletswydd llesiant. Bydd y penderfyniadau y gall cyrff cyhoeddus eu gwneud o ganlyniad i weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eang ac yn amrywiol ac ni ellir meintioli'r prosesau gwneud penderfyniadau yn hawdd mewn termau ariannol. Bu heriau ariannol ar draws y sector cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r Ddeddf yn rhoi disgresiwn i gyrff cyhoeddus, wrth iddynt osod amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny, i wneud hynny mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu rôl a'u swyddogaethau. Pan gyflwynwyd y Ddeddf yn 2015, ni ddarparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i'r 44 corff cyhoeddus gwreiddiol a restrir yn adran 6(1) o'r Ddeddf. Roedd hyn ar y sail y byddent yn gwella prosesau ac arferion sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chyflawni swyddogaethau sylweddol newydd. Canfu RIA y Ddeddf yn 2015 y gellir amsugno'r costau ychwanegol hyn o fewn mecanweithiau a chyllidebau presennol.

16. Bydd y prif gostau i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn dod o'r dyletswyddau i:

- Osod a chyhoeddi amcanion llesiant (adran 3(2)(a))
- Cyhoeddi datganiad ynghylch yr amcanion llesiant (adran 7(1))
- Cymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion hynny (adran 3(2)(b))
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd (adran 13(1) ac Atodlen 1)
- Cyhoeddi ymateb i argymhelliad a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (adran 22(4)) (lle bo'n gymwys)

17. Gan fod y Ddeddf wedi'i chynllunio i wneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog cyrff cyhoeddus, mae'n dilyn bod cyflawni'r dyletswyddau yn y Ddeddf yn effeithio ar sut y mae cyrff cyhoeddus, ar hyn o bryd, yn cyflwyno, yn cyhoeddi ac yn esbonio eu hamcanion presennol ac yn adrodd arnynt bob blwyddyn. Mae gan bob un o'r cyrff cyhoeddus ychwanegol fecanweithiau'n barod a fydd yn fodd iddynt nodi eu hamcanion ar gyfer eu sefydliad, esbonio sut y byddant wedi cyrraedd yr amcanion hynny, ac adrodd ar eu cynnydd yn flynyddol. Mae'r mecanweithiau presennol megis strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn darparu'r prif gyfrwng ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd a chynghorir defnyddio'r dull hwn yn y [canllawiau statudol](#) a ddyroddir o dan adran 14 a 22(2) o'r Ddeddf. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu dyletswydd llesiant. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus presennol wedi defnyddio mecanweithiau sy'n bodoli eisoes i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

18. Mae'r camau rhesymol y mae corff cyhoeddus yn penderfynu eu cymryd wrth gyflawni ei amcanion llesiant yn eang ac yn amrywiol a byddant yn dibynnu ar lefel ei uchelgais ac ar yr adnoddau a'r ysgogiadau cysylltiedig i gyflawni'r camau hynny. Mae'r Comisiynydd wedi bod yn casglu astudiaethau achos sy'n dangos sut y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant ac effaith y Ddeddf.

Nid oes modd meintioli'r costau sy'n deillio o natur yr amcanion llesiant a'r camau y gall corff eu cymryd.

19. Mae'r cyrff cyhoeddus ychwanegol wedi dod yn gyfarwydd â fframwaith y Ddeddf ac mewn llawer o achosion maent eisoes wedi cymryd camau gweithredu ac wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y maent yn gosod amcanion llesiant, yn llunio datganiad ar sut maent yn gweithio yn unol â'r Ddeddf, ac yn adrodd ar gynnydd yr amcanion hyn. Mae cynlluniau corfforaethol neu gynlluniau cyfatebol y cyrff cyhoeddus ychwanegol eisoes yn nodi lefel o ymwneud ag agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol (Atodiad 2).

20. Mae'r cyrff cyhoeddus ychwanegol wedi bod yn paratoi i gyflawni'r ddyletswydd llesiant ers ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022, gan fynychu sesiynau cyfnewid gwybodaeth Llywodraeth Cymru hefyd ynghylch cyflawni'r ddyletswydd llesiant ac maent wedi'u paratoi'n ddigonol ac mae'n annhebygol y bydd costau trosiannol sylweddol i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol. Mae tri o'r cyrff cyhoeddus ychwanegol, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, wedi bod yn anfon cyfranogwyr i Academi Arweinyddiaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac felly byddant yn elwa ar arweinyddiaeth a mewnwelediad ar arferion da o ran rhoi'r Ddeddf ar waith.

21. Mae llawer o adnoddau, offer, rhwydweithiau ac ymddygiadau arferion da wedi'u datblygu ers i'r Ddeddf gael ei phasio, a hynny'n bennaf gan y Comisiynydd ac ACC, y gall cyrff cyhoeddus fanteisio arnynt.

22. Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad 2022 yn amlinellu nad oedd llawer o'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn rhag-weld costau gweinyddol i gyflawni'r ddyletswydd llesiant ac y byddai'r costau'n cael eu hamsugno i'r adnoddau cyfredol heb unrhyw gynnydd mewn costau staff. Roedd rhai o'r farn y byddai angen adolygu'r sefyllfa hon. Drwy ymwneud ymhellach â'r cyrff cyhoeddus ychwanegol, nododd pob un ohonynt eu bod eisoes wedi gwneud cynlluniau i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a datganiad am yr amcanion llesiant erbyn mis Mawrth 2025. Felly ni ddisgwylir unrhyw gostau cyfle, ac eithrio addasiadau i'r trefniadau llywodraethu presennol o ran rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio â'r ddyletswydd llesiant.

23. Gan ddefnyddio RIA y Ddeddf yn 2015 (paragraffau 383 i 408 a Thabl 17), ysgrifennodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd at y 48 o gyrff cyhoeddus presennol ym mis Ionawr 2023 yn gofyn am wybodaeth am y costau trosiannol i gyrff cyhoeddus wrth addasu i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant.

24. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law yn pwysleisio'r cymhlethdod wrth amcangyfrif costau gweithredu'r ddyletswydd llesiant oherwydd integreiddo'r ddyletswydd o fewn y prosesau cynllunio ac adrodd presennol. Esboniodd cyrff cyhoeddus ei bod yn bwysig ystyried yr amser a'r adnoddau y mae eu hangen i godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant wedi'i dargedu i wneud y mwyaf o weithredu'r ddyletswydd, ond o gofio pa mor gyfarwydd yw'r cyrff cyhoeddus ychwanegol ag agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy eu hymgysylltiad gwirfoddol hyd yn hyn, mae'n debygol y bydd y costau ymgyfarwyddo yn fach iawn. Dangosodd yr ymatebion y bydd creu neu gryfhau'r strwythurau presennol ar gyfer cydweithio ac ymyriadau ataliol yn cymryd amser ac ymdrech. Mae'n

bosibl y bydd angen i gyrff cyhoeddus ddargyfeirio adnoddau mewnol yn ystod camau cynnar y gwaith gweithredu (yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o osod amcanion a llunio adroddiad blynyddol) drwy sefydlu seilwaith ataliol. Roedd yr ymatebion hefyd yn amlinellu bod y costau ychwanegol y mae eu hangen i gryfhau ffyrdd o weithio yn cael eu gorbwyso gan y manteision i weithrediad y sefydliadau. Ar ben hynny, esboniodd yr ymatebion fod costau ychwanegol bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd wedi'u hamsugno, ar y cyfan, o fewn y cyllidebau presennol. Dywedwyd bod y cyfoeth o wybodaeth a phrofiad a gronnwyd drwy gymorth, canllawiau, adroddiadau, hyfforddiant, astudiaethau achos a rhwydweithiau presennol yn amhrisiadwy.

25. I grynhoi, o gofio nad oes modd meintioli'r costau sy'n deillio o natur yr amcanion llesiant a'r camau y gall corff eu cymryd, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol oherwydd eu trefniadau presennol i wreiddio a chyfrannu at agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol, drwy ymgyfarwyddo â fframwaith y Ddeddf a mynediad at y deunyddiau a'r wybodaeth bresennol sydd ar gael iddynt.

*Costau i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru*

26. Nodir dyletswyddau statudol a phwerau dewisol y Comisiynydd ym mharagraffau 29-31 o ran 1.

27. Drwy ei adroddiadau blynyddol statudol a'i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol bob tymor, mae'r Comisiynydd yn nodi'r gweithgareddau y mae wedi'u cyflawni i gyflawni ei ddyletswyddau a, lle cânt eu defnyddio, ei bwerau. Mae hyn yn cynnwys manylion monitro cyrff cyhoeddus, eu hasesiadau o welliannau, cymorth uniongyrchol i gyrff cyhoeddus a phwerau adolygu adran 20 sydd wedi'u defnyddio ddwywaith ers 2017. Rhaid i'r adroddiad blynyddol hefyd gynnwys crynodeb o raglen waith y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol honno ac ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Yn ogystal, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiynydd lunio amcangyfrif o incwm a threuliau'r Comisiynydd a gyflwynir i Weinidogion Cymru. Gosodwyd yr amcangyfrif statudol ar gyfer 2024 i 2025 yn y Senedd ar 19 Rhagfyr 2024.

28. Yng Nghyllideb Derfynol 2024-25 a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2024 dyrannwyd £1,610,000 i'r Comisiynydd. Cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd ar ddyraniad cyfalaf o £30,000 a £10,000 nad yw'n arian parod yn 2024-25; bydd hyn yn cael ei ffurfioli fel rhan o broses y gyllideb atodol gyntaf. Mae hyn yn rhoi cyfanswm cyllideb adnoddau o £1,650,000 i'r Comisiynydd. Amcangyfrifodd yr RIA gwreiddiol (Cyfnod 2) yn 2015 gyllideb o £1,323,900 i'r Comisiynydd ar gyfer 2020-21.

29. Ers 2016, mae'r Comisiynydd wedi cynyddu ei arbenigedd a'i wybodaeth o ran rhoi cymorth i gyrff cyhoeddus. Mae wedi darparu cymorth uniongyrchol i gyrff cyhoeddus ac wedi cyhoeddi adroddiadau a chreu offer i helpu cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

30. Yn 2021-22, treialodd y Comisiynydd fodel newydd ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus i weithredu'r Ddeddf, er mwyn pwyso a mesur archwaeth a disgwyliadau ac er mwyn ymateb i argymhelliad mewn adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae angen rhyw fath o gymorth parhaus ar bob corff cyhoeddus, boed hynny'n strategol, yn weithredol, neu drwy ganllawiau ac arferion gorau wedi'u diweddaru. Mae cyrff cyhoeddus wedi dweud eu bod am gael cyngor

a chynhorthwy mwy uniongyrchol yn ogystal â chymorth, cyswllt â'r Comisiynydd, a mwy o ddigwyddiadau i helpu i feithrin cysylltiadau, cyfnewid arferion gorau, a datblygu eu dulliau gweithredu.

31. Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23, roedd gweithgareddau'r Comisiynydd i roi cymorth i gyrff cyhoeddus yn cynnwys: datblygu cydberthnasau drwy benodi Arweinwyr Cyrff Cyhoeddus, dod â'r byd academaidd a chyrff cyhoeddus ynghyd, cynnal gweithdai cenedlaethol a rhanbarthol, cyflwyno cannoedd o gyfarfodydd a chyflwyniadau, a darparu cyngor i gyrff cyhoeddus ar ystod o bynciau, prosesau a phenderfyniadau polisi.

32. Yn dilyn gostyngiad yn y gyllideb yn 2024-25, mae swyddfa'r Comisiynydd wedi newid ei dull gweithredu. Bellach, yn hytrach na phennu un cyswllt ar gyfer pob corff cyhoeddus, defnyddir dull mwy generig o weithio gyda chyrff cyhoeddus, drwy fynd ati i gynnull a chyflwyno sesiynau un-i-lawer, a lleihau'r cymorth a'r adborth dwys un-i-un. Er hynny, bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn newydd i'w dyletswyddau o dan y Ddeddf, ac felly mae'n debygol y bydd arnynt angen amser y Comisiynydd i gyfarfod â hwy'n rheolaidd, rhoi adborth, eu helpu i weithio drwy adnoddau a gofynion y Comisiynydd, a chael cyngor ar sut i newid eu harferion o ran eu dyletswyddau newydd ac i ddatblygu eu cynlluniau.

33. Mae'n bosibl y bydd mwy o geisiadau am gyngor, cynhorthwy a chymorth gan y cyrff cyhoeddus ychwanegol i'r Comisiynydd, o gofio'r cyd-destun mwyfwy cymhleth a heriol y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu o'i fewn.

34. Mae'r cyrff cyhoeddus ychwanegol eu hunain eisoes yn ymwneud ag agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac mae Atodiad 2 yn rhoi trosolwg o'r cyrff cyhoeddus ychwanegol, gan nodi hefyd lle y mae cyrff cyhoeddus eisoes yn defnyddio trefniadau cynllunio corfforaethol i gyflawni agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn wirfoddol. Mae gan gyrff gweithredol ymrwymiad hefyd i gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru o dan Weinidogion Cymru drwy eu llythyrau cylch gwaith. Mae'r cyrff cyhoeddus ychwanegol wedi bod yn paratoi i gyflawni'r ddyletswydd llesiant ers dros flwyddyn, gan gymryd rhan mewn sesiynau cyfnewid gwybodaeth sy'n cael eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru ac mae llawer eisoes yn defnyddio'r canllawiau a'r offer sydd ar gael iddynt.

35. Yn ei amcangyfrif statudol ar gyfer 2024-25, a osodwyd yn y Senedd ym mis Rhagfyr 2023, amcangyfrifodd y Comisiynydd mai cyfanswm yr isafswm y byddai ei angen i roi cymorth i'r wyth corff cyhoeddus ychwanegol fyddai £80,000 y flwyddyn o 1 Ebrill 2024.

36. Amcangyfrifodd RIA y Ddeddf yn 2015 y byddai'r cymorth ariannol uniongyrchol i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol i helpu i ymgorffori datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog tua £7,600 i bob corff. Bydd lefel y cymorth i gyrff cyhoeddus unigol yn newid yn dibynnu ar lefel eu haeddfedrwydd a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni'r ddyletswydd llesiant a/neu wneud gwelliannau a newidiadau i'r ffordd y maent yn gweithio.

37. Mae'r costau wedi'u haddasu o'r amcangyfrif blynyddol lleiaf o £80,000 ar gyfer yr wyth corff cyhoeddus ychwanegol i £120,000 (£15,000 y corff y flwyddyn) i adlewyrchu'n fanylach ddadansoddiad cyfredol o'r adnoddau y mae eu hangen ers i'r Comisiynydd ymgymryd ag ailstrwythuro sefydliadol. Mae'r gost hon yn cynnwys cost flynyddol i bob corff o £11,000 ar gyfer darparu cyngor a chymorth a £4,000 ar gyfer monitro, asesu a phwerau a dyletswyddau eraill. Mae Tabl 1 yn

darparu dadansoddiad o'r costau sydd wedi'u cyfartaleddu ar draws pob un o'r cyrff cyhoeddus ychwanegol ac ar draws pob blwyddyn ariannol.

38. Bydd y costau hyn yn cael eu talu o fewn cyllideb y Comisiynydd o 2024-2025 ymlaen. Bydd gwaith cychwynnol gyda'r wyth corff cyhoeddus ychwanegol yn cynnwys cyfarfodydd rhagarweiniol, hyfforddiant, a darparu cyngor ac adborth ar amcanion a chynlluniau llesiant. Er hynny, dros amser, mae'n debygol y bydd y ceisiadau gan y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn cynyddu ac yn mynd yn fwy heriol wrth i'w dealltwriaeth o'r ddyletswydd llesiant gynyddu. Gall trosiant staff mewn cyrff cyhoeddus olygu hefyd fod angen rhywfaint o waith rhagarweiniol pellach, ond y gobaith yw y bydd y sefydliadau yn gallu darparu'r rhan fwyaf o'r cymorth hwn drwy eu hyfforddiant mewnol.

39. Er bod lefel gref o ymgysylltiad presennol yn agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol gan y cyrff cyhoeddus ychwanegol, ac amrywiaeth o adnoddau yn bodoli, bydd costau cyfle yn gysylltiedig â darpariaeth cymorth y Comisiynydd ar gyfer y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf a phob blwyddyn ddilynol. Y brif gost cyfle gysylltiedig fydd y gostyngiad yng ngallu'r Comisiynydd i ddarparu cymorth un-i-un i'r cyrff cyhoeddus presennol.

40. O gofio aeddfedrwydd y 48 corff cyhoeddus presennol a'r cynnydd sydd wedi'i wneud ganddynt erbyn hyn, mae'n debygol y bydd arnynt angen llai o gymorth cyffredinol yn y blynyddoedd i ddod ond mae'n bosibl y bydd angen cymorth gwahanol arnynt yn dibynnu ar y gwelliannau a wnânt i'w ffordd o weithio.

*Tabl 1 Costau ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dros gyfnod o bum mlynedd*

| | **Y gost bob blwyddyn ariannol (£)** | | | | | **Cyfanswm (£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 75,000 |
| Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 75,000 |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 75,000 |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 75,000 |
| Awdurdod Cyllid Cymru | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 75,000 |
| Cymwysterau Cymru | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 75,000 |
| Trafnidiaeth Cymru | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 75,000 |
| Y Ganolfan Gwasanaethau | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 75,000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddus Digidol | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **120,000** | **120,000** | **120,000** | **120,000** | **120,000** | **600,000** |

*Costau i Archwilydd Cyffredinol Cymru – Cronfa Gyfunol Cymru*

41. Nodir rôl ACC ym mharagraffau 32-33 o ran 1.

42. Mae rhaglen ACC o ymchwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn rhoi cymorth i waith craffu'r Senedd. Mae'r astudiaethau hyn yn cael eu hadrodd i Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd. Mae cyllid oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ymchwiliadau ac astudiaethau o'r fath, yn y cylch adrodd presennol, wedi'i ddefnyddio i helpu i gyflawni dyletswyddau ACC o dan y Ddeddf ar gyfer cyrff perthnasol y llywodraeth ganolog. Mae hefyd yn cefnogi'r gwaith o lunio adroddiad statudol ACC ar ganfyddiadau cyffredinol ymchwiliadau datblygu cynaliadwy mewn cyrff unigol.

43. Yn y cylch adrodd cyfredol (Mai 2020-Mai 2025), mae ACC wedi ceisio integreiddio ymchwiliadau datblygu cynaliadwy o fewn rhaglenni gwaith presennol, cyn belled ag y bo modd. Fel rhan o'u hymateb i'r ymgynghoriad, nododd Archwilio Cymru sut y mae'r wyth corff cyhoeddus ychwanegol yn dod o fewn y rhaglenni archwilio presennol yn Atodiad 3. Mae gan ACC ystod gymhleth o bwerau a dyletswyddau ar gyfer gwahanol gyrff, gan arwain at wahanol gyfleoedd a rhai rhwystrau i gyflawni ymchwiliadau integredig ochr yn ochr â rhaglenni gwaith sydd eisoes wedi'u cynllunio.

44. Mae gwahanol drefniadau archwilio yn cael eu pennu drwy statud. Ar gyfer cyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG, mae ACC yn ymgymryd â rhaglenni o waith archwilio perfformiad 'lleol' sy'n amrywio o ran eu maint (yn lleol yn yr ystyr ei fod yn waith y mae'n ofynnol i ni ei wneud mewn cyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG). Mae hyn yn cynnig cyfle i integreiddio ymchwiliadau'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan o'r rhaglenni archwilio hynny.

45. Mae manteision ymchwiliadau integredig yn cynnwys cwmpas ehangach o ran ymchwiliadau, cost is a baich i gyrff cyhoeddus a golwg fwy cyflawn ar berfformiad. Mae rhaglenni archwilio perfformiad lleol yn bodoli ar gyfer Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

46. Ar gyfer y cyrff sy'n weddill, nid yw ACC yn ymgymryd â rhaglenni archwilio perfformiad lleol cyfatebol gan nad ydynt yn dod o fewn eu hystod bresennol o bwerau a dyletswyddau. Ar gyfer cyrff lle nad oes darpariaeth ar gyfer casgliad trefniadau priodol, ni all ACC gynnal rhaglenni archwilio perfformiad lleol integredig ac mae'n anos cael yr un effaith drwy ymchwiliadau anfynych ac annibynnol. Gall ymchwiliadau annibynnol hefyd fod yn gymharol ddrud a beichus i gyrff llai, ac yn llai effeithlon. Er hynny, efallai y bydd cyfleoedd i integreiddio rhai ymchwiliadau datblygu cynaliadwy fel rhan o ymchwiliadau gwerth am arian ehangach a mwy dwys o ran adnoddau o dan bwerau archwilio ehangach ACC.

47. Nodir y costau ychwanegol blynyddol i ACC archwilio'r cyrff cyhoeddus ychwanegol ac adrodd ar eu canfyddiadau i'r Senedd yn Nhabl 2. Mae'r cyfnod amcangyfrifedig yn chwe blynedd gan y bydd y rheoliadau yn rhoi hyblygrwydd i

ACC gyflawni ei ddyletswydd tan ddiwedd y cyfnod adrodd nesaf, fel y'i diffinnir ar hyn o bryd, yn hytrach nag archwilio'r wyth corff ychwanegol rhwng mis Mehefin 2024 a mis Mawrth 2025, ac adrodd ar ganfyddiadau hyn yn yr adroddiad i'r Senedd o dan adran 15(3) yn ystod y cyfnod hwnnw i'r Senedd.

48. Mae'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yn seiliedig ar gost flynyddol gyfartalog ar draws cylch adrodd. Y rheswm dros hyn yw nad oes unrhyw ofynion sy'n pennu pryd yn union y cynhelir ymchwiliadau ACC o fewn cylch adrodd. Bydd hyn yn dibynnu ar ffactorau amrywiol mewn perthynas â chynllunio ac adnoddau rhaglenni archwilio ehangach Archwilio Cymru. Bydd hefyd yn cymryd i ystyriaeth ffactorau cyd-destunol ar gyfer y cyrff unigol. Yn ymarferol, felly, gall y gwaith a wneir i gyflawni dyletswyddau ACC ym mhob corff unigol gael ei ledaenu'n wahanol ar draws y cyfnod.

49. Yn ei amcangyfrif statudol, *Gwybodaeth ategol ar gyfer yr amcangyfrif o Archwilio Cymru 2024-25,* nododd Archwilio Cymru gostau o £41,000 sy'n gysylltiedig ag estyn y Ddeddf i'r wyth corff ychwanegol (ar gyfraddau 2024-25). Maent yn rhag-weld y byddai'r gost flynyddol sylfaenol hon yn digwydd bob blwyddyn drwy gylch adrodd 2025-30, wedi'i chodi fel y bo'n briodol yn unol â'u hamcangyfrif ehangach. Mae'r ffigur o £41,000 yn is na'r ffigur yn Nhabl 2 gan fod Archwilio Cymru, yn ymarferol, yn rhag-weld cwmpasu'r rhan fwyaf o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau ar gyfer y tri chorff iechyd o fewn y rhaglenni presennol, er y gall ACC godi ffioedd ychwanegol am ymchwiliadau os yw'n dymuno.

50. Mae'r amcangyfrifon cost yn seiliedig ar gost y gwaith i fodloni'r gofynion statudol gofynnol os cânt eu cyflwyno fel ymchwiliadau datblygu cynaliadwy annibynnol, ar gyfraddau 2023-24, ac yn seiliedig ar gymysgedd sgiliau tybiedig. Bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar gyfraddau costau archwilio a'r cymysgedd gorau o sgiliau sydd ar gael i gyflawni'r gwaith ar bwynt mewn amser, gan ystyried adnoddau ehangach Archwilio Cymru a blaenoriaethau rhaglenni gwaith eraill. Mae gwahaniaethau mewn costau i gyrff unigol yn cymryd i ystyriaeth ragdybiaethau sy'n ymwneud â maint a chymhlethdod, a maint y ddarpariaeth archwilio bresennol.

51. Nid yw'r amcangyfrifon cost yn cymryd i ystyriaeth y costau staff/cyfle i gyrff archwiliedig sy'n deillio o'u hymgysylltiad â gweithgarwch archwilio. Yn yr un modd, nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth gostau i'r Comisiynydd drwy ei ymgysylltiad ag Archwilio Cymru ynghylch ymchwiliadau ACC o gyrff unigol.

52. Mae'r amcangyfrifon yn rhagdybio na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o ychwanegu'r wyth corff cyhoeddus o ran adroddiad cyffredinol ACC ym mhob cylch adrodd ar ganfyddiadau ymchwiliadau datblygu cynaliadwy.

*Tabl 2 – costau ar gyfer ACC dros gyfnod o chwe blynedd (ar gyfraddau 2023-24)*[1]

| | **Y gost bob blwyddyn ariannol (£)** | | | | | | **Cyfansymiau wedi'u llyfnhau (£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **2029-30** | |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 33,000 |
| Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 33,000 |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 5,500 | 33,000 |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 43,000 |
| Awdurdod Cyllid Cymru | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 43,000 |
| Cymwysterau Cymru | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 43,000 |
| Trafnidiaeth Cymru | 9,400 | 9,400 | 9,400 | 9,400 | 9,400 | 9,400 | 56,400 |
| Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 7,200 | 43,000 |
| | **54,600** | **54,600** | **54,600** | **54,600** | **54,600** | **54,600** | **327,400** |

[1] Talgrynnwyd y ffigurau i'r £100 agosaf, gyda'r holl is-gyfansymiau a'r cyfansymiau cyffredinol wedi'u talgrynnu ar yr un sail o'r ffigurau gwreiddiol. O ganlyniad, nid yw'r cyfansymiau a gyflwynir yn y tablau hyn yn adio i swm y rhannau.

**Manteision**

53. Mae Atodiad 1 yn rhestru manteision disgwyliedig y ddyletswydd llesiant i sefydliadau a phoblogaeth Cymru.

54. Ers i'r Ddeddf ddod yn gyfraith, mae tirwedd y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi newid. Bydd ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn helpu i adlewyrchu cwmpas ac ehangder yr agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn well. Bydd cynnwys y cyrff cyhoeddus yn ffurfiol yn yr agenda yn cryfhau'r ffordd y mae'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn gweithredu'r Ddeddf gyda'i gilydd. Pwysleisiodd yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2022 fod ychwanegu'r cyrff cyhoeddus hyn yn cael ei weld yn gyffredinol yn gam amserol sydd i'w groesawu a fyddai'n cryfhau'r saernïaeth datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac a fyddai o fudd i'r Gymraeg.

55. Mae'r ymatebion gan gyrff cyhoeddus sydd ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i ddyletswydd llesiant y Ddeddf wedi amlinellu manteision gweithio'n well mewn partneriaeth, sy'n darparu cyfleoedd i nodi synergeddau ac i wneud cyfraniad ar y cyd at ddatblygu cynaliadwy. Nodwyd bod defnyddio dulliau ataliol ar y cyd yn fwy costeffeithiol nag ymateb i effeithiau ar ôl i faterion ddigwydd. Bydd cynnwys y cyrff cyhoeddus eraill hyn yn cynyddu cwmpas ac ehangder yr agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru, a bydd yn cryfhau'r ffyrdd cynaliadwy o weithio sy'n ganolog i'r ffordd y mae Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn gweithio.

**Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir**

56. Byddai'r opsiwn a ffefrir (opsiwn 2) yn ymestyn nifer y cyrff cyhoeddus datganoledig sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol ledled Cymru o dan yr un ddyletswydd â'r 48 o gyrff cyhoeddus cenedlaethol, rhanbarthol a lleol presennol. Mae'n ehangu rhychwant fframwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan sicrhau bod y sector cyhoeddus ehangaf posibl yn gweithio at ddiben cyffredin a ffordd gyffredin o weithio. Ymhlith y rhain y mae ffocws cliriach, diogelu gwasanaethau cyhoeddus rhag dyfodol na ellir ei rag-weld, a fframwaith datblygu cynaliadwy cyson a chryf i'r holl gyrff cyhoeddus ledled Cymru weithio o'i fewn. Byddai'n galluogi Cymru ymhellach i ddod yn arweinydd rhyngwladol ar roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, yn enwedig yng nghyd-destun Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

57. Bydd cynnwys y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn ffurfiol hefyd yn cryfhau'r ffordd y mae'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn rhoi'r Ddeddf ar waith gyda'i gilydd. Mae'r cyrff cyhoeddus ychwanegol wedi bod yn ymwybodol o'r cynigion hyn ers canol 2022, maent wedi bod yn paratoi i gyflawni'r ddyletswydd llesiant ers dros flwyddyn, ac maent eisoes yn ymwneud ag agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Pan fyddant yn cael eu hychwanegu at adran 6(1) o'r Ddeddf, cânt dderbyn cymorth gan y Comisiynydd ac elwa ar ei arbenigedd a'i wybodaeth o roi cymorth i'r cyrff cyhoeddus presennol a thrwy ddefnyddio'r offer sydd eisoes wedi'u creu fel rhan o'r cymorth hwnnw.

58. Mae’r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf eisoes wedi elwa ar ymchwiliadau ACC sy'n dod â thryloywder ac atebolrwydd i'r cyrff cyhoeddus a sicrwydd i Weinidogion Cymru na ellir eu cyflawni drwy ymwneud gwirfoddol. Bydd dinasyddion hefyd yn elwa drwy well ymgysylltu ac ymwneud â'r cyrff cyhoeddus ychwanegol pan fyddant yn ddarostyngedig i'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan arwain at well darpariaeth gwasanaethau a chydweithio ar draws sectorau.

**Asesiad Effaith**

59. Nid yw'r polisi yn y Ddeddf yn cael ei newid, a dim ond o ganlyniad i'r ffaith bod mwy o gyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ddyletswydd llesiant y mae'r effeithiau'n codi.

60. Gan hynny, mae’r brif effaith ar y cyrff cyhoeddus a fydd yn dod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf. Nid yw'r Ddeddf yn pennu'r penderfyniadau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu gwneud mewn unrhyw sefyllfa benodol wrth gyflawni'r ddyletswydd llesiant. Bydd y penderfyniadau y gall cyrff cyhoeddus eu gwneud o ganlyniad i weithredu’n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eang ac yn amrywiol ac ni ellir meintioli'r prosesau gwneud penderfyniadau yn hawdd mewn termau ariannol. Bydd hyn yn arwain at newidiadau i’r ffordd y mae’r sefydliadau hynny’n gwneud penderfyniadau, yn ymgysylltu â chymunedau, yn cydweithio ag eraill, ac yn gosod ac yn cyhoeddi eu hamcanion ac yn adrodd arnynt. Canfu'r asesiad effaith fod effeithiau cadarnhaol yn debygol wrth i'r cyrff cyhoeddus geisio cyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol drwy eu hamcanion llesiant.

61. Mae'r asesiad effaith yn cydnabod myfyrdodau Adroddiad Llesiant Cymru, adroddiadau gan y Comisiynydd ac adroddiad ACC ar ymchwiliadau. Canfu adroddiad ACC yn benodol rai cyfleoedd i gyrff cyhoeddus wrth gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac enghreifftiau da o gyrff yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc ond canfu fod angen i gyrff cyhoeddus wneud mwy i gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

62. Bydd estyn y Ddeddf i’r cyrff cyhoeddus ychwanegol hyn yn cryfhau ac yn ehangu’r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru. Bydd cysondeb safonau yn helpu i gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau trawsnewidiol yng Nghymru. Bydd cynnwys mwy o Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru o dan fframwaith y Ddeddf yn sicrhau gwell cysondeb a chwarae teg.

63. Bydd crynodeb o'r asesiad effaith integredig yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, gydag asesiadau unigol ar gael ar gais.

**Cronfa Gyfunol Cymru**

64. Bydd ACC yn tynnu arian i dalu am gost ymchwiliadau ar gyfer y cyrff cyhoeddus ychwanegol, fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 41-52.

**Asesiad Cystadleuaeth**

65. Cynhaliwyd prawf hidlo cystadleuaeth. Ni ddisgwylir i'r rheoliadau effeithio ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

66. Mae'r Ddeddf yn rhoi newidiadau ar waith i strwythurau llywodraethu'r cyrff cyhoeddus penodedig ac yn creu fframwaith ar gyfer gwella llesiant hirdymor yng Nghymru, y mae tryloywder yn cael ei sicrhau ar ei gyfer gan system o adrodd statudol a mesur ystadegol ar lefelau cenedlaethol a lleol.

67. Ar gyfer cyrff cyhoeddus gweithredol sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, bydd gweithredu'r ddyletswydd llesiant yn ddarostyngedig i'r drefn ehangach o oruchwylio a rheoli perfformiad gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys llythyrau cylch gwaith 'Tymor y Llywodraeth', a ddyroddir gan Weinidogion Cymru i gyfarwyddo eu cynlluniau corfforaethol; llythyrau cyllido blynyddol; y dogfennau fframwaith y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru; a phenodi Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer pob sefydliad. Bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn parhau â'u hymwneud presennol â'r Ddeddf naill ai drwy lythyrau cylch gwaith Llywodraeth Cymru, a thrwy hynny gyfrannu at amcanion llesiant Gweinidogion Cymru, neu drwy ymwneud gwirfoddol a chysylltu â gweithgareddau cynaliadwyedd sectorol.

68. Mae tryloywder yn hanfodol ar gyfer gwella'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cynnal eu busnes a'r ffordd y maent yn perfformio. Mae'n hanfodol bod y cyhoedd, y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu atebolrwydd ar gyfer y Ddeddf, a'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cael gafael ar wybodaeth amserol a pherthnasol yn hawdd i gefnogi gwelliant parhaus.

69. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu trefn newydd o adolygu, monitro a gwerthuso, a fydd yn mesur y broses o wella llesiant. Mae'n nodi nodau hirdymor ar gyfer llesiant Cymru heddiw ac yn y dyfodol. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus penodedig geisio cyflawni'r nodau hyn a dangos yn eu hadroddiadau eu bod yn gweithio tuag atynt.

70. Mae camau gweithredu ac effaith y cyrff cyhoeddus ychwanegol wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn cael eu monitro drwy:

- Adroddiadau blynyddol – mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus adrodd ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
- Monitro – o dan adran 18 o'r Ddeddf, mae gan y Comisiynydd ddyletswydd gyffredinol, ymhlith pethau eraill, i fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion llesiant a bennir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni.
- Adolygiadau – o dan adran 20 o'r Ddeddf, caiff y Comisiynydd gynnal adolygiad ynghylch i ba raddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion drwy ystyried effaith hirdymor y pethau y mae'r corff hwnnw'n eu gwneud. Rhaid i gorff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn y camau a nodir mewn argymhelliad a wneir iddo gan y Comisiynydd o dan yr adran hon.
- Ymchwiliad – o dan adran 15 o'r Ddeddf, mae ACC yn cynnal ymchwiliadau rheolaidd ynghylch y gwaith o osod amcanion llesiant a'r camau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

71. Mae'n bwysig nodi bod gweithredu’n effeithiol yn dibynnu ar y penderfyniadau unigol y mae pob corff cyhoeddus yn eu gwneud o ran sut y mae'n cael ei redeg a sut y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Mater i'r cyrff cyhoeddus eu hunain, felly, fydd monitro a rheoli effeithiolrwydd eu trefniadau er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posibl. Mae'r digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth a arweinir gan Lywodraeth Cymru wedi’u cynllunio i ddarparu trosolwg cyfannol o'r cydrannau allweddol sy'n gysylltiedig â dyletswydd llesiant y Ddeddf.

72. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi penodi cymrawd polisi a ariennir gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU i ddatblygu dull gweithredu ar gyfer gwerthusiad o'r Ddeddf, a chyflwyno cam cyntaf y gwerthusiad hwnnw. Bydd y gwaith hwn yn darparu adolygiad ehangach o effeithiolrwydd y broses o roi'r Ddeddf ar waith.

73. Mae adroddiadau statudol gan y Comisiynydd ac ACC wedi darparu’r dystiolaeth ddiweddaraf o effaith y Ddeddf. Yn yr un modd, mae Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru yn rhoi gwybodaeth am gynnydd cenedlaethol tuag at y saith nod llesiant. Gellir defnyddio'r rhain i ddysgu mwy ynghylch sut y mae'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith ar draws y sector cyhoeddus.

**Atodiad 1: Manteision cyflwyno'r pwerau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

| Y ddyletswydd llesiant | Manteision | |
|---|---|---|
| Dyletswydd i **ymgymryd â datblygu cynaliadwy** (a ddiffinnir yn adran 2 o'r Ddeddf).<br>Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i gyrff cyhoeddus **osod a chyhoeddi amcanion** sydd â'r nod o sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf at gyflawni pob un o'r nodau llesiant ac yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion.<br>Rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu hefyd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir yn adran 5 o'r Ddeddf, ac **adrodd yn flynyddol** ar gynnydd tuag at eu hamcanion. | **Manteision i'r boblogaeth gyfan** (cynaliadwyedd Cymru)<br>▪ Cydweddu – diben cyffredin i'r sector cyhoeddus.<br>▪ Cydlyniaeth – sicrhau cysondeb wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol hyn.<br>▪ Fframwaith cyson – cynyddu cysondeb y fframwaith deddfwriaethol drwy ychwanegu cyrff cyhoeddus.<br>▪ Cwmpas – cwmpas ehangach o ran cyrff cyhoeddus o gofio'r rolau a'r swyddogaethau y maent yn eu darparu a'u perthynas â'r cyrff cyhoeddus presennol.<br>▪ Atebolrwydd – mwy o dryloywder er mwyn hybu gweithredu agored ac ymwybyddiaeth o'r heriau cymhleth y mae Cymru'n eu hwynebu a'r atebion cynaliadwy y mae cyrff cyhoeddus wedi'u dewis.<br>▪ Gwneud penderfyniadau integredig – fframwaith cliriach i hyrwyddo syniadau integredig a gwneud penderfyniadau.<br>▪ Hirdymor – galluogi cyrff cyhoeddus i gynllunio ar gyfer yr hirdymor.<br>▪ Cyfrifoldebau – mae'r Ddeddf yn helpu cyrff cyhoeddus i ddiffinio'n well y cyfrifoldebau sydd ganddynt a'r cyfraniadau y maent yn eu gwneud i lesiant Cymru. | **Manteision sefydliadol** (datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog)<br>▪ Cadernid – bydd sefydliadau wedi paratoi'n well ac yn gallu adnabod bygythiadau ac ymateb iddynt.<br>▪ Cyfraniad ar y cyd – gwell dealltwriaeth o ble y gallai eu heffaith orgyffwrdd â rhai sefydliadau eraill.<br>▪ Rheoli risg yn well – adnabod yn well y peryglon hirdymor a all ddod i'r amlwg.<br>▪ Effeithlonrwydd – hyrwyddo gwariant ataliol.<br>▪ Enw da – diogelu a hyrwyddo enw da sefydliadau ac, yn benodol, y cyfleoedd a all godi o ymrwymiad clir i ddatblygu cynaliadwy.<br>▪ Adroddiadau integredig – meithrin yr amodau i sefydliadau integreiddio eu trefniadau adrodd yn well i gyfathrebu â dinasyddion.<br>▪ Gwell tryloywder – gan arwain at well perfformiad a gwell cydberthnasau.<br>▪ Atebolrwydd – cydnabod bod y diwydiant archwilio yn mabwysiadu egwyddor datblygu cynaliadwy fwyfwy yn eu harferion. |
| Bydd maint y manteision hyn yn dibynnu ar sefyllfa'r sefydliad, a bydd modd addasu'r ffordd o'u cyflawni i amgylchiadau a gofynion. Bydd y goblygiadau i sefydliadau yn dibynnu ar y strategaethau y maent yn eu datblygu i gyflawni'r amcanion llesiant a bennir ganddynt mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth. Bydd sefydliadau yn defnyddio'u disgresiwn wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant. | | |

## Atodiad 2: Trosolwg o'r cyrff cyhoeddus ychwanegol a fydd yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| Corff | Sefydlwyd | Meini prawf ar gyfer cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | | | Cymhwyso Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn wirfoddol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Corff cyhoeddus[2] | Effaith ar lesiant | Swyddog-aethau strategol | Awdurdod i ACC Archwilio | Mewn llythyr cylch gwaith diweddar neu ddogfen gyfatebol | Amcanion llesiant mewn cynllun corfforaethol | Adrodd ar gynnydd |
| Cymwysterau Cymru | 2015 | ✓ Corff hyd braich gweithredol statudol | ✓ | ✓ | ✓[3] | Ydy | Ydy | Ydy |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | 2016 | ✓Corff hyd braich gweithredol statudol | ✓ | ✓ | ✓[4] | Ydy | Cyfeirio at gynnal egwyddorion y Ddeddf | Nac ydy |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | 2018 | ✓ Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[5] | Ddim yn berthnasol | Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys cyfeiriad at amcanion o dan nodau strategol | Ydy |
| Trafnidiaeth Cymru | 2018 | ✓ Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig | ✓ | ✓ | ✓ | Ydy | Yn y strategaeth drafnidiaeth | Ydy |
| Awdurdod Cyllid Cymru | 2018 | ✓ Adran anweinidogol | ✓ | ✓ | ✓[6] | Ydy | Yn y cynllun corfforaethol | Nac ydy |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | 2021 | ✓ Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓ | Ddim yn berthnasol | Nodi bod amcanion y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gysylltiedig â'r nodau | Cyfrannu at y nodau |
| Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol | 2020 | ✓ Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig | ✓ | ✓ | ✓ | Ydy | Wedi'i gynnwys yn yr 'adolygiad o'r flwyddyn' | Aros am yr adroddiad diweddaraf. |
| Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 1998 | ✓ Ymddiriedolaeth GIG | ✓ | ✓ | ✓[7] | Ddim yn berthnasol | Wedi ymrwymo i weithio'n unol ag ysbryd y Ddeddf– amcanion yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig | Nac ydy |

[2] Adran 52 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Gofrestr o gyrff cyhoeddus datganoledig | LLYW. CYMRU
[3] Atodiad 35 o Atodlen 1 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015
[4] Paragraff 16 o Atodlen 2 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
[5] Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
[6] Adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
[7] Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

**Atodiad 3: Cyrff cyhoeddus ychwanegol a rhaglenni archwilio lleol presennol Archwilio Cymru**

| | |
|---|---|
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | Ar hyn o bryd mae Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad o'r cyfrifon a'r rhaglenni archwilio perfformiad lleol (yn bennaf i gyflawni'r casgliad trefniadau priodol) a bydd yn integreiddio ymchwiliadau fel rhan o'r rhaglenni archwilio perfformiad lleol sy'n bodoli eisoes. |
| Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Ar hyn o bryd nid yw Archwilio Cymru ond yn cynnal archwiliad o'r cyfrifon[8]. Mae absenoldeb darpariaeth statudol ar gyfer casgliad trefniadau priodol yn golygu nad oes cyfleoedd i integreiddio ein hymchwiliadau fel rhan o raglenni archwilio perfformiad lleol. |
| Awdurdod Cyllid Cymru | |
| Cymwysterau Cymru | |
| Trafnidiaeth Cymru | Mae archwiliadau'r cyrff hyn yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Cwmnïau 2006, nad yw'n darparu ar gyfer casgliad trefniadau priodol, felly nid oes sail ar gyfer integreiddio ymchwiliadau datblygu cynaliadwy gyda'r archwiliad. Hefyd, gan nad ACC yw'r archwilydd allanol ar hyn o bryd, nid oes gwaith archwilio arferol yn cael ei wneud o fewn y cyrff hyn gan ACC, sy'n atal integreiddio ymchwiliadau ymhellach. Yn ogystal, gan nad oes hawliau mynediad statudol yn y Ddeddf i gefnogi ymchwiliadau.[9] |
| Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol | |

[8] A datganiadau trethi yn achos Awdurdod Cyllid Cymru.

[9] Nid oes unrhyw hawliau mynediad statudol wedi'u nodi o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gefnogi cyflwyno ymchwiliadau adran 15. Mae hyn yn golygu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn dibynnu ar hawliau mynediad a nodir o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wrth gynnal yr ymchwiliadau wedi'u hintegreiddio â gwaith archwilio a gyflwynir o dan bwerau a dyletswyddau eraill. Mewn cyrff lle nad oes unrhyw waith archwilio arferol, bydd mynediad at wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer ymchwiliadau yn fater o esboniad a negodi, a allai gymryd mwy o amser archwilydd a thrwy hynny arwain at gost ychwanegol ac fe allai arwain at risg ychwanegol o gostau cyfreithiol.